**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-750
Ein cyf/Our ref LG/00640/17

Mike Hedges AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPetitions@assembly.wales

16 Ebrill 2017

Annwyl Mike

Diolch am ~~eich~~ llythyr dyddiedig 27 Mawrth 2017 ynghylch deiseb P-05-750 mewn cysylltiad ag eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym.

Mae llawer o ystyriaethau cymhleth ynghlwm wrth gompostio deunydd pacio bwyd a diod untro. Yn fy marn i, er mwyn cael hyd i ateb tymor hir a gwireddu'r nod o greu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel ryngwladol, rhaid pwyso a mesur yr holl ystyriaethau hyn. Gwnawn hynny wrth werthuso ac adnewyddu *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, ein strategaeth wastraff ar gyfer Cymru.

Un amcan yn ein cynllun ar gyfer y sector Diwydiannol a Masnachol yw sicrhau bod cynnyrch, gan gynnwys deunydd pacio bwyd a diod, yn defnyddio llai o adnoddau (llai o ddeunydd anadnewyddadwy yn arbennig), eu bod yn para'n hirach a/neu bod modd estyn eu hoes. Hefyd, dylai cynnyrch gynhyrchu llai o wastraff ar ddiwedd eu hoes, dylid medru ailgylchu mwy ohonyn nhw a dylai mwy o'u cynhwysion fod yn ailgylchadwy.

Dywed cynllun y sector hefyd y dylai'r cynhyrchydd ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am reoli'r cynnyrch ar ddiwedd ei oes. Rwyf nawr wedi galw am ymchwil i estyn cyfrifoldeb y cynhyrchydd (EPR) am ddeunydd o'r fath. Bydd hynny'n cynnwys ymchwilio i ddeunydd pacio compostadwy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae EPR go iawn yn golygu bod y cynhyrchydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am holl gostau net casglu, didoli, ailgylchu a thrin y gwastraff a gesglir ar wahân sy'n deillio o'i gynnyrch a'i ddeunydd pacio. Mewn theori, byddai'r costau llawn yn cynnwys hefyd gostau casglu, cludo a thrin gwastraff nad yw'n cael ei gasglu ar wahân; costau hysbysu'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth i sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd rhan; costau atal gwastraff a chostau atal a rheoli sbwriel.

Gallai deunydd pacio untro ar gyfer bwyd a diod, gan gynnwys cyllyll a ffyrc plastig fod yn gynnyrch posib o dan EPR.

Byddwn yn comisiynu astudiaeth i ystyried ymarferoldeb, gan gynnwys costau a manteision, yr opsiynau i leihau gwastraff mewn cynnyrch a deunydd pacio, i ailgylchu mwy ac i leihau sbwriel o dan gynlluniau EPR yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth yn cynnwys opsiynau i gynyddu cyfraddau ailgylchu a gofalu bod llai o ddeunydd pacio bwyd a diod yn cael ei daflu fel sbwriel.

Rydym wedi gwerthuso *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* ac yn cyhoeddi'r canlyniadau yn yr haf. Byddwn yn comisiynu'r ymchwil i EPR cyn hir ac yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw hefyd yn yr haf. Caiff yr ymgynghoriad ar *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* newydd ei gyhoeddi yn haf 2018.

Byddwn yn ystyried canlyniadau'r astudiaeth o EPR ac yn pwyso a mesur y dystiolaeth. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad eang â'r rhanddeiliaid fel rhan o'r broses o ofyn barn pob sector cyn cyhoeddi'r *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* newydd.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs